



Bwletin GwE

CYDWEITHIO

DYSGU

LLWYDDO



#Diolch



Rhannwch ein bwletin â thîm staff yr ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n [rhestr bostio](#).

NADOLIG Llawen

Happy CHRISTMAS

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi gyd am eich gwaith aruthrol yn ystod y tymor hwn. Unwaith eto, rydych wedi wynebu nifer o heriau, a rhaid i mi eich llongyfarch ar sut yr ydych wedi mynd ati i sicrhau bod y plant a'r myfyrwyr yn eich gofal yn cael yr addysg orau bosibl dan yr amgylchiadau hynod anodd hyn.

Rwyf wedi cael y fraint o weld gwaith gwych gan ysgolion unigol, clystyrau a chynghreiriau yn ystod y tymor hwn. Mae rhannu syniadau ac arferion wir yn gryfder sylweddol yma yng Ngogledd Cymru.

Yn dilyn cyhoeddiad Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, fe wnawn ein gorau i'ch cefnogi mewn unrhyw ffordd beth bynnag fydd yr amgylchiadau'r tymor nesaf. Er yn flinderus, trwy gydweithio, rydym wedi llwyddo i oresgyn heriau dros y blynyddoedd diwethaf. Trwy barhau i weithio gyda'n gilydd, rwy'n siŵr y gallwn ddatrys unrhyw heriau pellach gaiff eu cyflwyno. Pe byddech am drafod unrhyw beth dros y gwyliau, yna gallwch gysylltu gyda Marc B Hughes neu Elfyn V Jones.

Gobeithio y cewch Nadolig dedwydd, gorffwysol a diogel, a chyfle i dreulio amser gwerthfawr gyda'ch teuluoedd, eich cyfeillion a'ch anwyliaid.

Dymuniadau gorau am Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda.

Arwyn a phawb yn GwE



Bryn Eirias, Ffordd Abergele, Bae Colwyn, LL29 8BY



0300 500 8087



Canolfan Cefnogaeth GwE



@GwEGogleddCymru



post@gwegogledd.cymru



www.gwegogledd.cymru



g6.gwegogledd.cymru



GwE Gogledd Cymru

CYNNIG PROFFESIYNOL GwE

Cynnig Proffesiynol GwE ar G6

Mae Cynnig GwE ar G6 yn cynnwys holl fanylion yr hyfforddiant datblygiad proffesiynol y mae GwE yn ei gynnis ar gyfer y flwyddyn ysgol.

Er mwyn cofrestru i fynychu'r hyfforddiant sydd wedi'i restru, bydd angen i holl staff yr ysgol greu cyfrif personol yn G6. Mae modd gwneud hynny drwy ddilyn y [ddolen hon](#) a chlicio ar y botwm 'Cofrestrwch Nawr'. Gweler y cyfarwyddiadau [yma](#).

Sicrhewch eich bod yn cofrestru ar G6 o leiaf 48 awr cyn y dyddiad cychwyn.

04/01/2022-21/03/2022	DYDDIAD	CYFRWNG
leithoedd Rhyngwladol/ITM (SECTOR CYNRADD) Trosglwyddo i'r Cwricwlwm i Gymru : Rhannu profiadau ysgolion yn yr Alban	10/01/2022	Saesneg
ANG - Asesu Ffurfiannol a Rhaglen Shirley Clarke (Sesiwn 6, Cyfrwng Cymraeg)	12/01/2022	Cymraeg
Cyflwyniad i Ymddygiadau Amddiffynnol i gefnogi lles	14/01/2022	Saesneg
ANG - Asesu Ffurfiannol a Rhaglen Shirley Clarke (Sesiwn 6, Cyfrwng Saesneg)	14/01/2022	Saesneg
ANG - Rheoli Ymddygiad yn eich Ystafell Ddosbarth (Sesiwn 4, Cyfrwng Saesneg)	18/01/2022	Saesneg
leithoedd Rhyngwladol/ITM (Sector Cynradd ac Uwchradd) - Trosglwyddo i'r Cwricwlwm i Gymru : DIFFINIO'R CWRICWLWM IEITHOEDD	20/01/2022	Saesneg
Hyfforddiant PACE a Sgiliau Perthynol ar gyfer Ysgolion a Sefydliadau	26/01/2022	Saesneg
ANG a Lles Disgyblion (Sesiwn 3, Cyfrwng Saesneg)	26/01/2022	Saesneg
leithoedd Rhyngwladol yn y cynradd: sesiynau galw heibio- Dyfodol Byd-eang GwE (SECTOR CYNRADD)	03/02/2022	Dwyieithog
leithoedd Rhyngwladol/ITM (SECTOR UWCHRADD) Trosglwyddo i'r Cwricwlwm i Gymru: Cynllunio'n wahanol ar gyfer CiG	07/02/2022	Saesneg
Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma	16/02/2022	Saesneg
leithoedd Rhyngwladol/ITM (SECTOR CYNRADD AC UWCHRADD) Trosglwyddo i'r Cwricwlwm i Gymru: Gwybodaeth glir ac arferion ystyrion	17/02/2022	Saesneg
'Bioffilia' - 'Gwell allan nag i mewn', Dr Coral Harper	09/03/2022	Saesneg
leithoedd Rhyngwladol/ITM (SECTOR CYNRADD AC UWCHRADD) Trosglwyddo i'r Cwricwlwm i Gymru: Trosglwyddo: Sut i sicrhau parhad a chynnydd	10/03/2022	Saesneg
Hyfforddiant Arferion sy'n Wybodus ynghylch Trawma i Ymarferwyr Blynnydoedd Cynnar	16/03/2022	Saesneg
leithoedd Rhyngwladol/ITM (SECTOR CYNRADD AC UWCHRADD) Trosglwyddo i'r Cwricwlwm i Gymru: Geirfa: ehangder a dyfnder	17/03/2022	Saesneg

Rhwydweithiau Rhanbarthol CiG

CYFARFODYDD I'R DYFODOL: BOREAU

- 25 Ionawr 2022
- 27 Ebrill 2022
- 2 Mawrth 2022
- 7 Mehefin 2022
- 5 Ebrill 2022
- 29 Mehefin 2022

RHAGLENNI CENEDLAETHOL

Dyddiadau Dysgu Proffesiynol ANG 2021-2022

Mae'r sesiynau hyfforddi rhanbarthol ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso yn fyw ar G6. Noder, yn benodol, y bydd y sesiynau ANG a Lles Disgyblion ac ANG – Rheoli Ymddygiad yn eich Dosbarth yn **cael eu cynnal eto** (cyfrwng Saesneg) ar 18/01/22 ac ar 26/01/22. Am ragor o fanylion a dyddiadau, gweler uchod o dan Cynnig Proffesiynol GwE, [yma](#) ac ar G6.

ANG Sesiwn 1 (Cymraeg) NQT Session 1 (English)	ANG Sesiwn 3 (Cymraeg) NQT Session 3 (English)
ANG Sesiwn 4 (Cymraeg) NQT Session 4 (English)	ANG Sesiwn 5 (Cymraeg) NQT Session 5 (English)
Sesiwn 1 Mentor Sefydlu (Cymraeg) Induction Mentor Session 1 (English)	
Hyfforddiant Gwirwyr Allanol (Cymraeg) External Verifier Training (English)	

NEWYDDION A GWYBODAETH GwE

Cwrs Sabothol Cymraeg [Lefel Uwch] AR GYFER CYNORTHWYWR DOSBARTH YSGOLION CYNRADD

DYDDIAD CAU ANFON CEISIADAU: 11/02/2022

[Manylion llawn ar gael yma.](#)**TEDxGwE**

DIGWYDDIAD CYFRI'R DYDDIAU CYN COP26

Yn ein digwyddiad TEDx arloesol yn Theatr Clwyd cyflwynodd blant ysgolion Gogledd Cymru y sgrysiâu TED [hyn](#) i alw am**DIWEDDARIAD: Aseidiadau Personol Cenedlaethol 2021-2022**

Gwybodaeth bellach:

Negeseuon Allweddol ar gyfer 2021-2022: <https://tinyurl.com/negeseuon-allweddol>Aseidiadau Personol – Rhifedd (Rhesymu): <https://tinyurl.com/rhifedd-rhesymu>**Astudiaeth Iechyd a Lles 'Connect'**

YDYCH CHI AM WELLA LLESIANT DISGYBLION?

📅 11/01/2022 🕒 13:30 - 14:15 & 15:45 - 16:30

Rydym wedi canfod rhaglen iechyd a lles addawol ar sail ymchwil ar gyfer ysgolion cynradd o'r enw Connect.

Cyflwynir Connect trwy themâu a gwersi tymhorol, ac mae'r rhaglen wedi'i chynllunio'n ofalus i wella lles emosiynol a gwytnwch disgyblion.

Fe'ch gwahoddir i ymuno mewn sesiwn wybodaeth am Connect ar 11/01/2022 [nodir yr amseroedd uchod].

[Cliciwch yma am ragor o fanylion.](#)Cysylltwch â richardwatkins@gwegogledd.cymru i gofrestru ac i gael y ddolen Zoom.**Gwella rhuglder darllen disgyblion ar lafar**

Rydym yn falch o wahodd ysgolion i fynychu ein hail garfan o hyfforddiant ar strategaethau

Rhuglder Geiriau Amllder Uchel ar gyfer Darllen Ailadroddol i helpu darllenwyr sy'n ei chael hi'n

**Dyfodol Byd-eang GwE: Ieithoedd Rhyngwladol**Am ragor o wybodaeth neu am gymorth gyda'r eitemau isod, cysylltwch â stephanieelliswilliams@gwegogledd.cymru**Canolfan Cefnogaeth GwE: [Ieithoedd Rhyngwladol – Sector Cynradd](#) a sector Uwchradd: gwybodaeth, arweiniad, cyfleoedd ac adnoddau**Cymraeg: <http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/adnoddau-gwe/pynciau-allgraidd-adnoddau-gwe/>**SECTOR UWCHRADD:**

- **[Cyfarfodydd Rhwydwaith ANG Dyfodol Byd-eang ITM: Cyfarfod Nesaf: 13/01/2022 am 3:45yp](#)**

Mae ANG ITM mewn ysgolion uwchradd bellach yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu syniadau, cael cymorth a datblygu arferion.

- **[Dysgu Proffesiynol Dyfodol Byd-eang GwE : paratoi at CiG](#)**

[Rhagor o fanylion ar gael yma.](#)

- **[Geiriadur Ffrangeg-Cymraeg / Cymraeg-Ffrangeg ar-lein, agored](#)**

<https://www.geiriadurffrangeg.cymru/>

- **[Cystadleuaeth ac Adnoddau i Ysgolion yng Nghymru: Gwobr Anthea Bell i Gyfieithwyr Ifanc](#)**



NEWYDDION A GWYBODAETH CONSORTIA



Cynnig 'Man Myfyriol' i bob Gweithiwr Proffesiynol mewn Addysg



Er mwyn rhoi cyfle i bob gweithiwr addysg proffesiynol gael cefnogaeth les, mae'r Consortia Addysg yn cynnig sesiynau man myfyriol. Am fanylion ac i gael mynediad at gymorth, gweler y ddolen: <https://tinyurl.com/yckmsb84>

Pecyn E-Ddysgu Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl

Mae Partneriaeth Llesiant y Consortia wedi gweithio gyda @MindCymru i ddarparu mynediad at becyn e-ddysgu ymwybyddiaeth iechyd meddwl 45 munud i weithwyr addysg proffesiynol yng Nghymru.

Bydd y rhaglen hunan-gyfeiriedig hon—i wella dealltwriaeth a chodi ymwybyddiaeth o faterion iechyd meddwl—yn fyw am y 22 mis nesaf. Nid oes angen cyfrinair na manylion mewngofnodi i gael mynediad at yr e-ddysgu.

Mae'n agored i bawb yn y maes Addysg: Cymorthyddion, Llywodraethwyr, Athrawon, LIC, ESTYN, NAEL, AauLL ayb. Os ydych chi'n gweithio yn y maes Addysg, rydych chi'n gymwys i ddilyn y rhaglen ar-lein hon.

Am ragor o fanylion a mynediad: [Rhaglen Partneriaeth Lles \[PDF\]](#) / [Mind - Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl yn y Gwaith \[SCORM\]](#)

GWYBODAETH AC ARWEINIAD GAN ERAILL

Y Rhaglen Maethu Lles



Rhaglen yw Maethu Lles sy'n annog gweithwyr proffesiynol i gydweithio, gan ganolbwyntio ar wella deilliannau lles ar gyfer plant a phobl ifanc. Ei nod yw creu iaith gyffredin ar gyfer gweithwyr proffesiynol amlasiantaethol a mwy o gydnabyddiaeth bod gofawyr maeth yn rhan allweddol o'r tîm, ochr yn ochr ag athrawon a gweithwyr cymdeithasol.

Gwefan Gwlad y Chwedlau



Mae gan Gymru dreftadaeth lenyddol heb ei hail yn Gymraeg a Saesneg. Mae [gwefan Gwlad y Chwedlau](#) sy'n dangos yr amrywiaeth o lenyddiaeth, diwylliant a mythau Cymru ar ffurf map sy'n arwain ymwelwyr ar deithiau i weld llecynnau cudd yn ogystal â manau mwy cyfarwydd. Bydd y cyfan wedi'i seilio ar ddewisiadau'r ymwelwyr wrth edrych ar hanesion am gestyll arswydus, tywysogion arwrol ac angenfilod rhyfedd.

BookSlam 2021-22



Her ddarllen i ddisgyblion blynyddoedd 3-6 yng Nghymru yn seiliedig ar lyfrau Saesneg yw BookSlam. Mae dwy elfen i BookSlam; trafodaeth grŵp o un llyfr a chreu hysbyseb hyrwyddo ar gyfer llyfr arall. Cynhelir rownd sirol yn gyntaf gyda'r enillwyr yn mynd ymlaen i gystadlu yn y rownd genedlaethol yn Aberystwyth ym mis Mehefin 2022. Bydd pob ysgol sy'n cofrestru i gymryd rhan yn derbyn pecyn o ganllawiau i gyd-fynd â 10 llyfr BookSlam.

SSCE Cymru: Swyddi Gwag



Cliciwch ar y dolenni isod am ragor o fanylion.

[Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol - Plant Milwyr](#) - **DYDDIAD CAU: 10/01/2022**

Hysbyseb Swydd Cyngor Llyfrau Cymru

Swyddog Gwerthu a Gwybodaeth Ysgolion, Addysg a Chyfrifon Sefydliadol Gogledd Cymru



Rhaglen 'Deialog Ddigidol: Cymru'

Mae rhaglen Deialog Ddigidol: Cymru yn cynnig DPP am ddim i athrawon, gwerth tair awr o adnoddau addysgu a sesiynau rhyngweithiol ar-lein gyda gwleidyddion lleol a chenedlaethol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael [yma](#).



Gweithredu'r System Anghenion Dysgu Ychwanegol

Roedd 1 Medi, 2021 yn nodi cychwyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) newydd Cymru.

Dros y tair blynedd nesaf bydd plant a phobl ifanc ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yn symud ymlaen fesul cam i'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion ynghylch y canllawiau newydd a hyfforddiant gweithlu i gefnogi'r gweithredu.

Cyfres o bodlediadau Cymraeg newydd sbon o'r enw 'Am Blant'

GAN YSGOL GWYDDORAU ADDYSG, PRIFYSGOL BANGOR

Bydd y gyfres hon o 8 podlediad am faes penodol Plentyndod ac Ieuenctid yn edrych ar y materion hynny sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yng Nghymru heddiw. Bydd aelodau'r paneli yn cynnwys aelodau staff o Brifysgol Bangor yn ogystal ag arbenigwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc neu dros blant a phobl ifanc mewn amrywiol feysydd. Dilynwch y [ddolen hon](#) i wrando ar y podlediad. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â r.tomos@bangor.ac.uk